

## CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00pm. Nos Iau, 9 Ionawr 2025**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Cyng. Barry Thomas

**Cynghorwyr:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, Geraint Owen, Meilir Parry, Evan Wyn Robertson a Tony Thompson.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc / SAC

Croesawodd y Cadeirydd Cyng. Meilir Parry i'w gyfarfod cyntaf, cadarnaodd yn ysgrifennedig ei fod yn derbyn y sedd cyn cymryd rhan yn y cyfarfod.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. William Roberts a Keith Roberts (Cynghorydd Sir)
2. **Datganiad o Ddiddordeb:** – Cyng. M. Parry yn datgan diddordeb sy'n rhagfarnu parthed eitem 5.2.
3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** derbyniwyd cofnodion 14 Tachwedd 2024 fel rhai cywir (cynnig. Cyng. T. Thompson, eilio. Cyng. G. Owen).
4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
  - 4.1 Llygredd yn y dŵr wrth Bont Plas Coch – roedd dwr yn dal i sefyll o gwmpas y bont ond cadarnhaodd Cyng. Geraint Owen ei fod wedi monitro'r safle yn rheolaidd ac ni chanfwyd unrhyw arogl drwg yn y cyffiniau.
  - 4.2 Cadarnhawyd fod un o'r meinciau wrth yr Eglwys wedi pydru gormod i'w thrin a gan fod defnydd rheolaidd ohonni cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn rhoi un newydd yno. Gofynnwyd i'r clerch gael prisiau erbyn y cyfarfod nesaf.
  - 4.3 Hysbyswyd y cyfarfod fod y Cyngor Sir wedi tynnu'r llwybr pren o draeth Rhoscolyn a bod llethr naturiol wedi ei greu i lawr at y traeth yn ei le.
5. **Ceisiadau Cynllunio**
  - 5.1 HHP/2024/206 Tros Y Bont, Pontrhydybont  
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – roedd angen gwneud y mwyaf o'r lle parcio o flaen yr eiddo. Dim gwrthwynebiad fel arall.
  - 5.2 VAR/2024/61 Hafod Y Plas, Pontrhydybont.  
Cais o dan Adran 73 er mwyn cyflwyno gwybodaeth i newid amod (11) (un llawr & uchafswm uchder) o ganiatâd cynllunio OP/2023/6 (cais amlinellol i godi annedd menter wledig) er mwyn codi uchder yr annedd . – Dim gwrthwynebiad.

Gadawodd Cyng. Parry'r ystafell heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth yma.

- 5.3 Cais am Apêl - Plas Huan, Rhoscolyn – er sylw yn unig

5.4 Penderfyniad FPL/2024/42 Tyn Rhos Pontrhydybont – gwrthodwyd.

## 6. **Gohebiaeth** (er gwybodaeth)

6.1 Gordyfiant – Pontrhydybont – gofynnwyd l'r clerc ysgrifennu at Scottish Power i ofyn iddynt dorri'r coed cyferbyn â Minfor ar y B4545 gan ei fod yn taro ar y gwifrau trydan.

6.2 Llwyfan Map Cyhoeddus (PMP) - Gwahoddiad Gweithdy Mapio Rhwydwaith

6.3 Arolwg o Etholaethau'r Senedd – cynnig i ymuno Môn gyda Bangor a rhan o Gonwy.

6.4 Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith Claddu ac Amlosgi (Saesneg yn unig) - rhan o'r cynigion oedd y gofyn i Gyngorau Tref a Chymuned gynnal mynwentydd caeedig – fe all hyn gael effaith sylweddol ar wariant Cyngor Cymuned Rhoscolyn.

6.5 Canllawiau am E-byst a Chaffael – awgrymwyd y dylai bawb gael cyfeiriad ebost i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith y Cyngor yn unig.

6.6 Canllawiau am Enwi Parthau a Gwefannau – penderfynwyd cadw'r wefan fel ac y mae hi am y tro.

## 7. **Materion Ariannol**

Cyflwynwyd: adroddiad ariannol y SAC am y cyfnod o 1.11.2024 i 31.12. 2024) ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

7.1 Cyfrifon / Accounts 2023/24 - Nodwyd bod yr Archwilyr Allanol wedi cymeradwyo'r cyfrifon terfynol a chyhoeddi adroddiad diamod heb unrhyw faterion yn codi.

7.2 Praesept Blwyddyn Ariannol 2025/26 - Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2025, y gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r cronfeydd wrth gefn disgwyledig ar 31 Mawrth 2025. Cytunwyd yn unfrydol i gadw'r praesept yr un fath a byddai'r Clerc yn gofyn am £8,000 ar gyfer 2025/26.

7.3 Taliadau: cytunwyd i dalu'r rhain:

H Roberts (wefan)	£141.45	Un Llais Cymru	£38
Cyflog	£498.57		

Cytunwyd y byddai'r clerc yn talu unrhyw anfoneb a dderbyniwyd am wariant a gytunwyd arno yn flaenorol.

## 8. **Adroddiadau Cyngorwyr - dim**

## 9. **Cyfarfod nesaf 13 Chwefror 2025.**

---

## RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL

### Council Meeting Minutes - 7.00pm. Thursday, 9 January 2025

**Present:** Chair: Councillor Barry Thomas

**Councillors:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, Geraint Owen, Meilir Parry, Evan Wyn Robertson a Tony Thompson.

Also present: Mai Owen – Clerk / RFO.

The Chairman welcomed Cllr. Meilir Parry to his first meeting of the Council, he confirmed in writing that he accepted the seat before taking part in the discussions.

1. **Apologies: Councillor** William Roberts, and Keith Roberts (County Councillor)
2. **Declaration of Interest:** – Cllr. M. Parry declared a prejudicial interest in item 5.2.
3. **Minutes of previous meeting:** the minutes of 14 November 2024 were accepted as correct (prop. Cllr. T. Thompson, sec. Cllr. G. Owen).
4. **Matters arising from the minutes**
  - 4.1 Pollution in the water by Plas Coch Bridge – there was still standing water under the bridge, Cllr. Geraint Owen had regularly monitored the site and found no evidence of any foul smell in the vicinity.
  - 4.2 One of the benches at the Church was decayed and beyond reasonable repair. As there appeared to be regular use of it the Community Council would purchase a replacement. The clerk was asked to obtain prices for the next meeting.
  - 4.3 Members were informed that the County Council had removed the boardwalk from Rhoscolyn beach, there was now a natural slope down to the beach.
5. **Planning Matters**

HHP/2024/206 Tros Y Bont, Pontrhydybont

Full application for alterations and extensions – there was a need to maximise the parking area at the front of the property. Otherwise there were no objections.

  - 5.1 VAR/2024/61 Hafod Y Plas, Pontrhydybont.  
Application under Section 73 in order to submit details for the variation of condition (11) (single storey & maximum height) of planning permission OP/2023/6 (erection of a rural enterprise dwelling) so as to increase the height of the dwelling - No objections.

Cllr. Meilir Parry left the meeting and took no part in this discussion.

  - 5.2 Application for Appeal - Plas Huan, Rhoscolyn – noted.

5.3 Decision notice FPL/2024/42 Tyn Rhos Pontrhydybont – refused.

**6. Correspondence – submitted and noted:**

- 6.1 Overgrowth – Pontrhydybont - the clerk was asked to write to Scottish Power to ask them to cut the trees opposite Minfor on the B4545 as they were touching the electric cables.
- 6.2 Public Map Platform – Relational Network Mapping Workshop Invitation
- 6.3 Review of Senedd Constituencies - proposal that Isle of Anglesey should merge with Bangor and a part of Conway.
- 6.4 Law Commission consultation on Burial and Cremation law reform – part of the proposals were that Town and Community Councils be required to maintain closed cemeteries – this could have a serious financial impact on Rhoscolyn Community Council.
- 6.5 Guidelines about Email and Procurement - it has been suggested that everyone should have an email address for Council business only.
- 6.6 Guidelines about Naming Domains and Websites – agreed to keep the existing website for the time being.

**7. Financial Matters**

Submitted: The RFO's financial report for the period from 1.11.2024 to 31.12.2024 together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts.

- 7.1 Accounts 2023/24 - It was noted that the External Auditors had approved the final accounts for 2023/24 and issued an unqualified report with no matters arising.
- 7.2 Precept Financial Year 2025/26 – Following a detailed discussion about the accounts forecasts to 31 March 2025, the anticipated expenditure for the coming year and expected reserves at 31 March 2025. It was unanimously agreed not to ask for an increased precept. The Clerk would therefore request £8,000 for 2025/26.
- 7.3 Payments – agreed as follows:

H Roberts (website	£141.45	One Voice Wales	£38
Salary	£498.57		

It was agreed to pay any invoice received for previously agreed expenditure.

**8. Councillors' Reports - none**

**9. Next Meeting – 13 February 2025**